Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Hawliau Plant ym Mhrydain Fawr

–

Cyflwyniad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
Rhagfyr 2022

Crynodeb gweithredol

equalityhumanrights.com

Cynnwys

Cyflwyniad **03**

Am ein rôl 04

Datganoli a chwmpas daearyddol yr adroddiad hwn 04

Trais yn erbyn plant **05**

Iechyd a gwasanaethau iechyd **06**

Safon byw **07**

Yr hawl i addysg **08**

Gweinyddu cyfiawnder plant **09**

Atodiad: Argymhellion **10**

Materion a gedwir yn ôl a deddfwriaeth 10

Polisi, strategaeth a chydlynu cynhwysfawr 10

Cenedligrwydd 11

Hawl i breifatrwydd 11

Artaith a thriniaeth neu gosb arall greulon, annynol neu ddiraddiol 11

Rhyddid y plentyn rhag pob math o drais 12

Arferion niweidiol 12

Iechyd a gwasanaethau iechyd 13

Safon byw 14

Yr hawl i addysg 14

Addysg hawliau dynol a bwlio 15

Plant sy'n ceisio lloches, plant ffoaduriaid a phlant mudol 16

Gweinyddu cyfiawnder plant 17

Masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern 18

Cysylltiadau **19**

Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS) **19**

Cyflwyniad

Dyma grynodeb o'n hadroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r adroddiad yn diweddaru'r materion a drafodwyd yn ein cyflwyniad blaenorol i'r UNCRC yn 2020, ac yn rhoi tystiolaeth ar weithredu argymhellion ers adolygiad diwethaf y Deyrnas Unedig (DU) gan UNCRC yn 2016.

Mae'r crynodeb hwn yn nodi rhai o'r meysydd yr ydym wedi'u nodi fel blaenoriaethau i'r UNCRC eu hadolygu:

- trais yn erbyn plant (gan gynnwys arferion niweidiol a diogelwch ar-lein)
- iechyd a gwasanaethau iechyd (gan gynnwys canlyniadau, mynediad at driniaeth a chadwad)
- safon byw (gan gynnwys tlodi plant, costau byw a nawdd cymdeithasol)
- yr hawl i addysg (gan gynnwys colli dysgu a chyrhaeddiad addysgol), a
- gweinyddu cyfiawnder plant (gan gynnwys cyfiawnder rhithwir a Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022)

Ceir rhagor o fanylion am y meysydd hyn yn yr adroddiad llawn, sydd hefyd yn ymdrin â phynciau ychwanegol, gan gynnwys:

- materion a gedwir yn ôl a deddfwriaeth
- polisi, strategaeth a chydlynu cynhwysfawr
- cenedligrwydd
- yr hawl i breifatrwydd
- addysg hawliau dynol a bwlio
- plant ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudol, a
- masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern

Rydym yn nodi bylchau mewn amddiffyniadau i blant ac yn gwneud argymhellion lle mae angen gweithredu pellach. Rydym yn cynnwys tystiolaeth sy'n tynnu ar ganlyniadau a phrofiadau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan gyfraith cydraddoldeb Prydain, oherwydd mae cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu yn hanfodol i wireddu'n llawn yr hawliau a gynhwysir yn y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (CRC).

Rydym yn cydnabod y baich digynsail bu i'r pandemig coronafeirws (COVID-19) ei roi ar wasanaethau cyhoeddus, a sut y cafodd anghydraddoldebau a oedd eisoes yn wynebu plant eu gwaethygu neu eu hymestyn o ganlyniad.

Mae plant hefyd yn wynebu mwy o fregusrwydd i bwysau costau byw a'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Rydym yn annog llywodraethau'r DU a Chymru i sicrhau bod hawliau a barn plant yn ganolog i ymdrechion adferiad economaidd a pholisïau sero-net.

Mae gan Brydain amddiffyniadau hawliau dynol cryf, a gwnaed cynnydd o ran hawliau plant a phobl ifanc yn y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn annog llywodraethau i barhau i ddefnyddio proses adrodd y CRC i gryfhau prosesau gweithredu a gwella cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau hawliau dynol.

Am ein rôl

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gorff statudol annibynnol ac yn Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol statws A. Mae Senedd y DU yn ein gwneud yn gyfrifol am hyrwyddo dealltwriaeth a diogelu hawliau dynol ac annog arfer da (gweler Deddf Cydraddoldeb 2006, adran 9(1)). Mae hyn yn cynnwys asesu ac adrodd ar gynnydd y DU o ran cynnal ei rhwymedigaethau hawliau dynol o dan y cytuniadau a gadarnhawyd gan Senedd y DU.

Datganoli a chwmpas daearyddol yr adroddiad hwn

Mae Senedd y DU wedi datganoli pwerau amrywiol i Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae Senedd y DU yn cadw cyfrifoldeb am yr holl faterion yn Lloegr ac am faterion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon y mae wedi'u cadw'n benodol. Mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn gyfrifol am weithredu rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol.

Mae ein hadroddiad a'r crynodeb hwn yn ymdrin â Chymru a Lloegr ar gyfer yr holl feysydd thematig, a'r Alban ar gyfer y materion hynny a gadwyd yn ôl i Senedd y DU, yn unol â'n mandad statudol. Mae ein hargymhellion wedi'u hanelu at lywodraethau'r DU a Chymru, er y gallent fod yn berthnasol i weinyddiaethau datganoledig eraill.

Trais yn erbyn plant

Mae gan blant yr hawl i fod yn rhydd o bob math o drais a chamdriniaeth. Fodd bynnag, mae rhai plant ym Mhrydain Fawr yn cael eu cam-drin mewn gwahanol ffyrdd.

Rydym yn pryderu am y defnydd cynyddol o Tasers gan yr heddlu yn erbyn plant a'u defnydd anghymesur yn erbyn plant lleiafrifoedd ethnig. Mae ataliaeth yn parhau i gael ei ddefnyddio yn erbyn plant yn y ddalfa, gofal cleifion mewnol, ysgolion a lleoliadau eraill. Gall hyn gynnwys defnyddio ataliaeth sy'n achosi poen ac ataliaeth dor-orweddol (wyneb i lawr). Bu cynnydd mewn ysgolion, ond ni ddefnyddir ataliaeth yn gymesur bob amser nac fel y dewis olaf, ac nid yw'n ofynnol i ysgolion gofnodi'r defnydd o ataliaeth.

Mae'n anodd mesur graddau trais yn erbyn plant. Mae ffigurau swyddogol yn dangos bod bron i 260,000 o blant wedi profi neu wedi gweld trais domestig yn Lloegr yn 2021. Mae rhai wedi amcangyfrif bod y ffigur hwn yn uwch. Gall rhieni a'r rhai sy'n gweithredu 'in loco parentis' (yn lle rhiant) sy'n cael eu cyhuddo o ymosodiad cyffredin ar blentyn yn Lloegr geisio dibynnu o hyd ar amddiffyniad cyfraith gwlad o 'gosb resymol'.

Efallai bod y pandemig wedi cynyddu trais yn erbyn plant. Mae risgiau diogelu wedi dod i'r amlwg, gyda chynnydd yng nghyfran y plant sy'n absennol o'r ysgol yn barhaus ers y pandemig.

Mae achosion o gamfanteisio a cham-drin plant yn rhywiol yr adroddwyd amdanynt wedi cynyddu. Amlygodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol fethiannau sefydliadol eang i amddiffyn plant, a rhwystrau i adrodd ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig penodol. Rydym yn pryderu bod cymorth arbenigol i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn annigonol i fynd i'r afael â'r broblem.

Mae plant yn wynebu risgiau cynyddol o gamdriniaeth, camfanteisio a meithrin perthynas amhriodol ar-lein. Rydym yn croesawu Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU sy'n ceisio gwneud yr amgylchedd digidol yn fwy diogel i blant.

Mae rhai plant yn dal i fod yn destun arferion niweidiol, gan gynnwys:

- arferion trosi gyda'r bwriad o newid cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd person
- yr hyn a elwir yn cam-drin 'ar sail anrhydedd' (HBA)
- anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), a
- priodas dan orfod.

Iechyd a gwasanaethau iechyd

Mae gan bob plentyn hawl i'r safon iechyd uchaf bosibl. Fodd bynnag, mae rhai plant yn wynebu anghydraddoldebau o ran mynediad a chanlyniadau iechyd. Mae tystiolaeth sylweddol hefyd bod iechyd meddwl plant ym Mhrydain yn gwaethygu.

Canfu astudiaeth gan y GIG o blant a phobl ifanc yn Lloegr fod y gyfran ag 'anhwylder meddwl tebygol' wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2017 a 2021, gan godi o 11.6% o blant a phobl ifanc 6 i 16 oed, i 17.4% yn 2021. Mae data yng Nghymru'n gyfyngedig, er i arolwg a oedd yn cwmpasu Cymru yn 2019/20 ganfod bod 19% o ddisgyblion 11 i 16 oed wedi nodi symptomau 'uchel iawn' o salwch meddwl.

Mae tystiolaeth yn dangos dirywiad cyson mewn hapusrwydd ymhlith plant a chyfraddau cynyddol o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae cyfraddau salwch meddwl yn uwch ymhlith rhai grwpiau. Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch tystiolaeth sy'n dangos effaith negyddol ac anghymesur y pandemig ar iechyd meddwl plant.

Mae cael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl yn heriol i lawer o blant, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael ag amseroedd aros. Mae gwariant ar wasanaethau arbenigol wedi cynyddu, ond dim digon i gadw i fyny â'r galw cynyddol. Mae gwahaniaethau rhanbarthol sylweddol yn parhau: roedd gwariant blynyddol fesul plentyn yn 2020/21 yn amrywio o £16 i £150 yn Lloegr.

Mae plant sy'n cael eu cadw oherwydd salwch meddwl yn wynebu risgiau penodol. Mae rhai plant yn cael eu cadw mewn lleoliadau oedolion ac, yn Lloegr, nid yw mynediad at Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol ar gael i bob plentyn yn y ddalfa. Rydym yn croesawu agweddau ar gynlluniau Llywodraeth y DU i ddiwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983, er bod gennym bryderon nad yw anghenion penodol plant yn cael sylw digonol.

Mae goblygiadau'r pandemig i iechyd corfforol plant yn sylweddol, gyda ffactorau risg newydd ar gyfer iechyd, lles a datblygiad babanod, megis:

- mynediad cyfyngedig i wasanaethau iechyd, gan gynnwys ymwelwyr iechyd a phractisau cyffredinol
- llai o ryngweithio addysgol a chymdeithasol oherwydd cyfyngiadau symud a mesurau cadw pellter cymdeithasol
- lefelau uwch o straen, a
- lefelau uwch o amddifadedd materol.

Safon byw

Mae tlodi cymharol yn cyfeirio at incwm aelwydydd o dan 60% o'r canolrif mewn blwyddyn benodol, ar ôl costau tai. Mae nifer y plant sy'n byw mewn tlodi cymharol ledled y DU wedi cynyddu, gan gyrraedd uchafbwynt 20 mlynedd o 4.3 miliwn yn 2019/20, sef bron i draean o'r holl blant.

Gostyngodd ffigur tlodi plant y DU i 3.9 miliwn yn 2020/21, o bosibl oherwydd y mesurau nawdd cymdeithasol dros dro a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig, er bod y pandemig wedi effeithio ar y gwaith o gasglu data ac felly'n destun ansicrwydd. Mae'n bosibl y bydd dileu'r mesurau hyn, ynghyd â'r gostyngiad yng ngwerth budd-daliadau a'r cynnydd mewn costau byw, yn gwrthdroi'r duedd hon.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru strategaeth tlodi plant yn 2011 a chynllun gweithredu uchafu incwm tlodi plant yn 2020, ond mae tlodi plant yn parhau i fod yn uchel o hyd. Nid oes gan Lywodraeth y DU unrhyw strategaeth lleihau tlodi plant.

Mae plant o leiafrifoedd ethnig a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae rhywun yn anabl yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan dlodi.

Mae newidiadau i system nawdd cymdeithasol y DU wedi lleihau'r cymorth sydd ar gael i blant. O'r newidiadau hyn, adroddir mai'r terfyn dau blentyn ar Gredyd Cynhwysol a Chredyd Treth Plant yw achos mwyaf arwyddocaol tlodi plant. Yn y tair blynedd ar ôl ei gyflwyno, cynyddodd cyfran y plant mewn teuluoedd o dri neu fwy o blant sy'n byw mewn tlodi o 41% i 47%, o gymharu â chyfradd tlodi o 24% ar gyfer plant mewn teuluoedd un neu ddau o blant.

Mae cynnydd mewn chwyddiant, trethiant a chostau byw yn 2021/22 wedi gwaethygu safonau byw plant. O'r rhai a nododd gynnydd yn eu costau byw o fis Mawrth i fis Mehefin 2022, bu'n rhaid i 40% o rieni â phlant dros bum mlwydd oed dorri'n ôl ar hanfodion, gan gynnwys bwyd, o gymharu â 34% o bobl heb blant dibynnol. Mae'n bosibl na fydd y camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i gostau byw cynyddol yn ddigonol i amddiffyn pob plentyn, ac amcangyfrifir y bydd tlodi plant cymharol yn cyrraedd 33% erbyn 2026/27.

Rydym yn pryderu bod niferoedd cynyddol o blant yn wynebu anhawster i gael mynediad at angenrheidiau, gan gynnwys tai a bwyd, a bod plant sy'n byw mewn teuluoedd heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus, oherwydd eu statws mewnfudo, yn arbennig o agored i dlodi.

Yr hawl i addysg

Mae gan bob plentyn hawl i addysg ar sail cyfle cyfartal. Mae rhai plant yn wynebu rhwystrau cynyddol i gael mynediad at addysg, ac yn profi anghydraddoldebau o ran cyrhaeddiad addysgol, llawer ohonynt wedi'u gwaethygu gan y pandemig.

Cyn y pandemig, roedd y plant yr effeithiwyd arnynt yn negyddol gan fylchau mewn cyrhaeddiad addysgol yn wrywaidd, yn anabl, dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ac o rai grwpiau ethnig. Roedd rhai o'r bylchau hyn yn ehangu. Fodd bynnag, nid ydym yn deall yn iawn eto effaith y pandemig ar gyrhaeddiad, yn rhannol oherwydd newidiadau i fesurau cyrhaeddiad a chanslo arholiadau yn ystod y pandemig.

Yn ogystal, rhwng Mawrth 2020 ac Ebrill 2021 collodd disgyblion yn Lloegr gyfartaledd o 61 diwrnod o ysgol, a chollodd disgyblion yng Nghymru 66 diwrnod ar gyfartaledd, oherwydd cau ysgolion. Disgwylir i golli addysgu wyneb yn wyneb effeithio'n sylweddol ar enillion oes cenhedlaeth o blant.

Profodd disgyblion o gefndiroedd difreintiedig fwy o golledion dysgu yn gyffredinol. Gwaethygodd y newid i ddysgu o bell rai anghydraddoldebau addysgol presennol. Roedd gan lawer o blant ddiffyg mynediad digonol i gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd ar ddechrau'r pandemig. At hynny, roedd absenoldeb parhaus o'r ysgol yn cynyddu cyn y pandemig ac mae'n parhau i wneud hynny.

Mae llywodraethau'r DU a Chymru wedi ymrwymo arian sylweddol i fynd i'r afael â'r tarfu dysgu a achosir gan y pandemig. Efallai na fydd y rhain yn mynd i'r afael â maint y broblem nac yn diwallu anghenion penodol plant anabl.

Gweinyddu cyfiawnder plant

Mae rhai agweddau ar y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr yn cyflwyno heriau o ran gwireddu hawliau plant, gan gynnwys y defnydd cynyddol o remánd a gwahaniaethau parhaus a brofir gan blant Du.

Mae Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 yn datgan mai'r oedran lleiaf y gellir dal plentyn yn droseddol gyfrifol yng Nghymru a Lloegr yw 10 mlwydd oed. Mae hyn yn anghyson â safonau hawliau dynol rhyngwladol sy'n argymell isafswm oedran o 14.

Mae Deddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a Llysoedd 2022 Llywodraeth y DU yn cynnwys darpariaethau a allai olygu bod plant yn treulio mwy o amser dan glo. Mae plant sy'n cyflawni llofruddiaeth yn wynebu'r posibilrwydd o gael eu dedfrydu i garchar am oes mwy na heb, yn groes i safonau hawliau dynol rhyngwladol.

Rydym yn pryderu ynghylch y defnydd cynyddol o gysylltiadau fideo yn ystod achosion llys, a all effeithio'n negyddol ar allu rhai plant i ddeall a chyfranogi. Rydym hefyd yn pryderu am Ddeddf Adolygiad Barnwrol a Llysoedd 2022 Llywodraeth y DU sy'n ei gwneud yn bosibl i blant bledio'n euog i droseddau ar-lein neu'n ysgrifenedig heb ymddangos yn y llys, ac i benderfyniadau yn y llys gael eu gwneud heb i'r plentyn sy'n ddiffynnydd fod yn bresennol.

Rydym yn croesawu'r gostyngiad cyffredinol ym mhoblogaeth y plant yn y ddalfa, ond rydym yn pryderu am yr amodau ar gyfer rhai o'r rhai hynny sy'n aros. Er gwaethaf y gostyngiad cyffredinol hwn, cynyddodd y defnydd o rym yn y ddalfa bob blwyddyn rhwng 2016 a 2020, a defnyddir grym yn anghymesur yn erbyn plant a merched Du.

Mae plant yn y ddalfa yn wynebu risg o ymosodiad, cam-drin rhywiol a thriniaeth a all fod yn gyfystyr â chaethiwed unigol. Rydym yn pryderu am yr heriau parhaus – a waethygwyd gan gyfyngiadau a osodwyd yn ystod y pandemig - y mae plant yn y ddalfa yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gymorth iechyd meddwl, darpariaeth gofal iechyd ac addysg.

Atodiad

Argymhellion

Dyma'r argymhellion yr ydym wedi'u gwneud i lywodraethau'r DU a Chymru lle mae angen cymryd camau pellach i wella cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau hawliau dynol. Mae ein hargymhellion yn cwmpasu'r holl bynciau o'n hadroddiad llawn.

Am fanylion pellach darllenwch ein hadroddiad llawn ar ein gwefan.

Materion a gedwir yn ôl a deddfwriaeth

Dylai Llywodraeth y DU:

- Rhoi effaith gyfreithiol i ddarpariaethau'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (CRC) mewn cyfraith ddomestig, gan ganolbwyntio'n benodol ar lenwi bylchau presennol mewn amddiffyniadau hawliau, er mwyn sicrhau y gall plant orfodi eu hawliau o dan y CRC mewn llysoedd domestig. Dylai Llywodraeth y DU sefydlu gweithgor hawliau plant i roi cyngor ar ymgorffori cytuniadau a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus, gyda mecanweithiau ac adnoddau i sicrhau cyfranogiad plant.

- Sicrhau nad yw unrhyw gynigion i addasu amddiffyniadau hawliau dynol domestig yn lleihau amddiffyniad i hawliau plant nac yn cyfyngu ar fynediad at iawn; rhaid i unrhyw newidiadau fod yn destun craffu seneddol ac eraill, gan gynnwys gan blant.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Cymryd camau i ymgorffori'r hawliau yn y CRC ymhellach mewn cyfraith ddomestig i sicrhau y gall plant orfodi eu hawliau mewn llysoedd domestig.

Polisi, strategaeth a chydlynu cynhwysfawr

Dylai llywodraethau'r DU a Chymru:

- Ailystyried y penderfyniad i beidio â sefydlu mecanwaith ar gyfer gweithredu, adrodd a gwaith dilynol i weithredu'r argymhellion a wnaed gan gyrff cytuniadau'r Cenhedloedd Unedig ac o dan yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol.

- Cyhoeddi a gweithredu Cynllun Gweithredu Hawliau Plant sy'n nodi camau penodol i weithredu'r argymhellion a gyhoeddwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), a chydnabod yr angen am frys i leihau effaith pandemig COVID-19.

Cenedligrwydd

Dylai Llywodraeth y DU:

- Sicrhau bod unrhyw newidiadau i gyfraith, polisi a phrosesau cenedligrwydd a mewnfudo'r DU yn ystyried hawliau plant, gan gynnwys lles pennaf y plentyn, yn unol â'i rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny.

- Pwysleisio mewn is-ddeddfwriaeth a chanllawiau ar weithredu Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 mai lles pennaf y plentyn, yn enwedig o ran peidio â bod yn ddi-wladwriaeth, ddylai fod yn brif ystyriaeth a bod gan blant yr hawl i gaffael neu gadw cenedligrwydd; dylid monitro defnydd ac effaith darpariaethau ar blant heb wladwriaeth ac, os mai'r effaith yw parhau i fod heb wladwriaeth, ei diwygio.

Hawl i breifatrwydd

Dylai Llywodraeth y DU:

- Dadansoddi unrhyw anghymesuredd hiliol o ataliadau heb amheuaeth gan yr heddlu, cyhoeddi'r canfyddiadau, a chymryd camau lliniaru, yn unol â'i rwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

- Mabwysiadu mesurau diogelu i sicrhau bod pwerau i stopio a chwilio plant, ac i gynnal chwiliadau eraill o blant, yn cael eu defnyddio gan yr heddlu mewn modd cyfreithlon, anwahaniaethol a dim ond pan fo amheuaeth resymol; rhaid i'r mesurau diogelu gynnwys presenoldeb oedolyn priodol heblaw o dan amgylchiadau eithriadol ddiffiniedig.

- Sicrhau nad yw ei ddiwygiadau arfaethedig i ddiogelu data yn gwanhau rhwymedigaethau presennol o dan y Cod Plant, ac yn diogelu hawliau preifatrwydd plant.

Artaith a thriniaeth neu gosb arall greulon, annynol neu ddiraddiol

Lle bo'n berthnasol, dylai llywodraethau'r DU a Chymru:

- Gwahardd defnyddio Taser a chwfl poeri ar blant.

- Gweithredu argymhellion ymchwiliad y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol i gadw pobl ifanc ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth, ac argymhelliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wahardd y defnydd o ataliaeth dueddol ar blant mewn lleoliadau iechyd meddwl.

- Sicrhau bod ataliaeth yn erbyn plant yn cael ei ddefnyddio'n gymesur, ac fel y dewis olaf, yn unol â'n Fframwaith Hawliau Dynol ar gyfer Ataliaeth; mae hyn yn cynnwys gwahardd, ym mhob lleoliad, y defnydd o ataliaeth am resymau disgyblu a thechnegau sy'n achosi poen yn fwriadol i blant.

- Casglu, coladu, cyhoeddi a dadansoddi data ar bob math o ataliaeth mewn ysgolion, gan gynnwys yn ôl nodwedd warchodedig; dylid defnyddio'r data hwn i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ddefnydd anghymesur o ataliaeth yn erbyn grwpiau penodol o blant.

- Datblygu safonau hyfforddi cenedlaethol ar gyfer ataliaeth; dylai'r rhain ddefnyddio dull hawliau dynol i leihau'r defnydd o ataliaeth a thynnu ar adnoddau presennol, megis Safonau Hyfforddiant y Rhwydwaith Lleihau Cyfyngiadau.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Ystyried gwneud unrhyw ganllawiau sy'n ymwneud â'r 'Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol' yn statudol ar gyfer ysgolion a lleoliadau eraill.

Rhyddid y plentyn rhag pob math o drais

Lle bo'n berthnasol, dylai llywodraethau'r DU a Chymru:

- Ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, gan gynnwys trwy ddileu rhwystrau i adrodd am gam-drin ar gyfer plant â nodweddion gwarchodedig penodol.

- Cyflwyno dyletswydd statudol ar awdurdodau comisiynu i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned i blant sy'n ddioddefwyr trais a chamdriniaeth, waeth beth fo'u statws mewnfudo.

- Sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag aflonyddu a chamdriniaeth ar-lein trwy Fesur Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU.

Dylai Llywodraeth y DU:

- Gwerthuso'r Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr Mudol ac ystyried yn ofalus oblygiadau cynnal ei amheuon i Gonfensiwn Istanbul ar gyfer sicrhau amddiffyniad effeithiol i holl ddioddefwyr cam-driniaeth, waeth beth fo'u statws preswylio.

- Diddymu amddiffyniad 'cosb resymol' yn Lloegr.

Arferion niweidiol

Lle bo'n berthnasol, dylai llywodraethau'r DU a Chymru:

- Datblygu dull effeithiol o fynd i'r afael ag arferion niweidiol – gan gynnwys FGM, HBA a phriodasau dan orfod – yn erbyn plant, gan gynnwys drwy godi ymwybyddiaeth, gwella'r broses o adnabod dioddefwyr, a mynd i'r afael â bylchau data, cyfraddau adrodd isel a chyfraddau erlyn isel.

- Deddfu i sicrhau nad yw ymyriadau meddygol nad ydynt yn rhai brys yn cael eu cynnal ar blant ag amrywiadau mewn nodweddion rhyw nes bod caniatâd gwybodus, a sicrhau bod gwybodaeth ddigonol, cwnsela a gwasanaethau seicolegol ar gael i deuluoedd a phlant.

- Deddfu i roi terfyn ar arferion trosi niweidiol sy'n ceisio newid cyfeiriadedd rhywiol a/neu hunaniaeth rhywedd person ifanc, wrth gymryd y camau priodol i ddiffinio terminoleg allweddol a sicrhau nad yw arferion meddygol, ysbrydol neu gwnsela cyfreithlon yn cael eu heffeithio.

Iechyd a gwasanaethau iechyd

Dylai llywodraethau'r DU a Chymru:

- Cyflwyno strategaeth iechyd meddwl plant traws-lywodraethol i:
  - sicrhau bod gwasanaethau ar gael fel gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, gofal therapiwtig mewn ysgolion, a gwasanaethau yn y gymuned i bob plenty
  - lleihau cyfraddau anghymesur o anhwylderau iechyd meddwl ymhlith rhai grwpiau sydd mewn perygl
  - mynd i'r afael â gwahaniaethau daearyddol mewn triniaeth, a
  - lleihau amseroedd aros
- Asesu effeithiau tymor byr a thymor hir y pandemig ar iechyd, lles a datblygiad pob plentyn - yn enwedig y rhai sy'n wynebu gwahaniaethau presennol - a chymryd camau pendant, yn seiliedig ar dystiolaeth i wella mynediad a darpariaeth, lleihau anghydraddoldebau a llywio unrhyw ymateb i'r pandemig yn y dyfodol.

Dylai Llywodraeth y DU:

- Ystyried argymhellion adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar blant a phobl ifanc yn Lloegr a sicrhau bod diwygiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystyried anghenion plant, gan gynnwys ehangu mynediad at Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol ar gyfer pob plentyn sydd dan gadw.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Ystyried y camau gweithredu a argymhellir yn adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddiogelu lles meddwl cenedlaethau'r dyfodol, ac adrodd ar gynnydd.
- Cryfhau casglu data ar iechyd meddwl a lles plant yng Nghymru i gefnogi ymyriadau effeithiol.

Safon byw

Dylai llywodraethau'r DU a Chymru:

- Ymestyn cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim i blant sy'n byw mewn tlodi cymharol.

- Ailgyflwyno targedau sy'n gysylltiedig â thlodi incwm ar gyfer dileu tlodi plant, sefydlu mecanweithiau a dangosyddion atebolrwydd ar gyfer cyrraedd y targedau hyn, ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd.

Dylai Llywodraeth y DU:

- Sicrhau bod y system nawdd cymdeithasol yn darparu cefnogaeth ddigonol i fynd i'r afael â thlodi plant, gyda ffocws ar gefnogi grwpiau sy'n profi tlodi yn anghymesur a lliniaru effaith y pandemig a'r costau byw uwch; dylai hyn gynnwys dileu'r terfyn dau blentyn a'r cap budd-daliadau; lleihau'r arhosiad o bum wythnos am daliad Credyd Cynhwysol cyntaf yn barhaol; a sicrhau bod cyfradd y budd-dal plant yn aros yn unol â chwyddiant.

- Datblygu strategaeth tlodi plant gynhwysfawr ar gyfer Lloegr, gyda chamau gweithredu i ddileu tlodi plant a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a wynebir gan blant a phobl ifanc sydd wedi'u gwaethygu gan y pandemig a'r costau byw uwch, gan sicrhau bod buddiannau gorau'r plentyn yn cael eu cymryd fel ystyriaeth sylfaenol yn unol â'i rwymedigaeth o dan y CRC.

- Asesu effaith amodau dim hawl i arian cyhoeddus ar hawliau plant, gan gynnwys trwy ddulliau gwell o gasglu data, a chymryd camau i liniaru unrhyw ganlyniadau niweidiol i blant.

Yr hawl i addysg

Lle bo'n berthnasol, dylai llywodraethau'r DU a Chymru:

- Sicrhau bod y rhaglen adfer addysg yn ystyried yr heriau penodol a wynebir gan wahanol grwpiau o blant yn ystod ac o ganlyniad i'r pandemig, gan gynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (SEND), ac anghenion dysgu ychwanegol (ALN).

- Sicrhau bod polisïau i wella cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau i addysg a wynebir gan blant â nodweddion gwarchodedig penodol, a sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth ddatblygu a chyflawni polisïau o'r fath.

- Defnyddio tystiolaeth ar fynediad i, a chanlyniadau, rhaglenni adfer addysg ar gyfer grwpiau nodweddion gwarchodedig i sicrhau bod cymorth yn cael ei deilwra i ddiwallu eu hanghenion; dylai'r dystiolaeth hon hefyd lywio rhaglenni ehangach, megis y rhai sydd wedi'u hanelu at wella anghydraddoldebau rhanbarthol mewn perfformiad addysgol.

- Sicrhau bod camau gweithredu i wella cyrhaeddiad addysgol a lleihau bylchau cyrhaeddiad yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac yn ystyried anghydraddoldebau parhaus ar gyfer plant â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

- Dileu'r cymal materion a gedwir yn ôl a'r datganiad deongliadol ar Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, a chymryd camau pendant i hwyluso dewis teuluol gwirioneddol a gwireddu hawl plant anabl i addysg gynhwysol.

- Sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth SEND neu ALN, gan gynnwys drwy sicrhau bod athrawon a staff eraill yr ysgol yn gallu cefnogi anghenion plant sydd â SEND neu ALN.

Dylai Llywodraeth y DU:

- Sicrhau bod y gofrestr o blant nad ydynt yn yr ysgol yn cael ei defnyddio i ddeall anghymesuredd ar gyfer unrhyw grwpiau nodweddion gwarchodedig, ac i gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â phlant sy'n cael eu haddysgu gartref.

- O dan ei diwygiadau arfaethedig i'r system SEND, sicrhau nad yw cyflwyno safonau cenedlaethol yn lleihau'r hawliau sydd gan blant a phobl ifanc â SEND o dan y fframwaith cyfreithiol presennol, nac yn codi'r trothwyon ar gyfer ymyriadau, megis asesiadau, i gymryd lle.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Blaenoriaethu cyflwyno canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref a chasglu data ar y rhai sy'n cael eu haddysgu gartref, gan gynnwys data ar nodweddion gwarchodedig.

- Monitro gweithrediad Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) am unrhyw effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol.

Addysg hawliau dynol a bwlio

Dylai llywodraethau'r DU a Chymru:

- Cefnogi ysgolion i fabwysiadu ymagwedd seiliedig ar hawliau dynol a gweithredu argymhelliad yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol i ddatblygu rhaglen gynhwysfawr o addysg hawliau dynol.

- Sicrhau bod deunyddiau addysgu ar draws y cwricwlwm yn adlewyrchu hanes, diwylliannau a chyfraniadau pobl o leiafrifoedd ethnig ym Mhrydain Fawr.

- Gwneud addysg hawliau dynol, gan gynnwys gwybodaeth am y CRC, yn rhan orfodol o hyfforddiant athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus.

- Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gofnodi achosion o fwlio ar sail rhagfarn, wedi'u dadansoddi yn ôl nodwedd warchodedig berthnasol, a defnyddio'r wybodaeth i lywio eu strategaethau gwrth-fwlio.

- Sicrhau bod hyfforddiant athrawon yn cynnwys canllawiau ar sut i adnabod, ymateb i a gwrthweithio bwlio ac aflonyddu ar sail hunaniaeth.

Dylai Llywodraeth y DU:

- Sicrhau bod addysgu am amrywiaeth cefndiroedd teuluol yn amlwg yn rhan o'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd, yn briodol i oedran, ac yn unol â rhwymedigaethau o dan gyfraith ddomestig a rhyngwladol, a

- Sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi a'u hannog i lunio eu cwricwlwm addysg perthnasoedd, rhyw ac iechyd (RSHE) yn unol ag ymagwedd seiliedig ar hawliau, gan gynnwys blaenoriaethu ymagwedd ataliol at aflonyddu rhywiol; dylai hyn gynnwys cefnogi plant i ddeall bod aflonyddu rhywiol yn fath o wahaniaethu ac yn groes i hawliau dynol, i ddeall pan fydd eu hawliau'n cael eu torri, ac i wybod beth i'w wneud i herio neu unioni toriadau o'r fath; dylai plant hefyd fod yn rhan o'r gwaith o lunio'r cwricwlwm RSHE a pholisïau diogelu ysgolion ehangach i sicrhau eu bod yn berthnasol ac wedi'u haddasu i'w hanghenion.

Plant sy'n ceisio lloches, plant ffoaduriaid a phlant mudol

Dylai Llywodraeth y DU:

- Sicrhau bod y canllawiau ar asesiadau oedran ar gyfer plant mudol ar eu pen eu hunain a phlant sy'n ceisio lloches yn cynnwys rhagdybiaeth, os yw eu hoedran yn ansicr, bod yn rhaid iddynt gael eu trin fel plentyn – gan gynnwys peidio â chael eu cadw ochr yn ochr ag oedolion – nes bod eu hoedran wedi'i asesu'n wrthrychol gan arbenigwyr annibynnol arbenigwyr amlddisgyblaethol sy'n rhoi sylw i fuddiannau gorau'r plentyn.

- Rhoi'r gorau i gadw plant mewnfudwyr a threfnu bod dewisiadau eraill addas ar gael.

- Lleihau amseroedd aros prosesau pennu statws ar gyfer plant sy'n ceisio lloches, gan gynnwys gosod safonau gwasanaeth i sicrhau bod hawliadau'n cael eu prosesu'n amserol.

- Ymrwymo i beidio ag adleoli plant sy'n ceisio lloches, gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain a phlant sydd yng nghwmni oedolyn, i Rwanda yng ngoleuni risgiau diogelu, a sicrhau bod y broses o lunio polisïau lloches yn y dyfodol yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r holl hawliau perthnasol o dan y CRC.

Gweinyddu cyfiawnder plant

Dylai Llywodraeth y DU:

- Codi oedran cyfrifoldeb troseddol i 14, yn unol â safonau hawliau dynol rhyngwladol.

- Sicrhau bod camau mesuradwy yn cael eu cymryd i leihau'r defnydd o remánd yn y ddalfa ar gyfer plant, gan gynnwys trwy sicrhau bod dewisiadau eraill sy'n briodol i'w hoedran ar gael yn lle carcharu yn y gymuned.

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith bod plant yn nalfa'r heddlu yn cael eu gwahanu oddi wrth oedolion sy'n cael eu cadw bob amser.

- Rhoi'r camau gweithredu yn adroddiad 'Prydain Gynhwysol' Llywodraeth y DU ar waith i fynd i'r afael â gwahaniaethau ethnig wrth droseddoli pobl ifanc, a datblygu strategaeth hirdymor i sicrhau nad yw plant o leiafrifoedd ethnig yn cael eu trin yn anghymesur yn y system cyfiawnder troseddol.

- Rhoi diwedd ar y defnydd o ddedfrydau gorfodol o garchar am oes i blant a chymryd camau i sicrhau bod plant yn cael y dedfrydau carcharol byrraf posibl, gan gynnwys trwy alluogi disgresiwn barnwrol wrth ddedfrydu.

- Ymchwilio i effeithiau cydraddoldeb a hawliau dynol defnyddio cyswllt byw, gweithdrefnau ar-lein neu ysgrifenedig a thechnolegau newydd eraill mewn achosion troseddol ar gyfer plant sy'n ddiffynyddion cyn ehangu eu defnydd.

- Sicrhau bod camau mesuradwy yn cael eu cymryd i leihau trais yn nalfa ieuenctid a achosir ac a gyflawnir gan blant, gan gynnwys ymosodiadau a bwlio, a gweithredu mewn ymateb i argymhellion adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ar gam-drin plant yn rhywiol yn nalfa ieuenctid.

- Gwella darpariaeth ac argaeledd gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol yn yr ystâd ddiogel i bobl ifanc; dylai hyn gynnwys cymorth amserol i atal hunanladdiad a hunan-niweidio.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu argymhelliad y Comisiwn ar Gyfiawnder y dylai pob un o'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y farnwriaeth a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF gyhoeddi strategaeth ar gyfer Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, ac adrodd yn flynyddol ar eu strategaeth i Senedd Cymru; rhaid i'r strategaethau hyn ystyried yr hawliau a gynhwysir yn y CRC a chynnwys ffocws ar wahaniaethau penodol yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern

Dylai Llywodraeth y DU:

- Sicrhau bod y gwerthusiad o'r peilot o wneud penderfyniadau ar Fecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) datganoledig yn dadansoddi ei effeithiau ar gydraddoldeb a hawliau dynol i sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac ymrwymo i weithredu mesurau a nodwyd i gael effeithiau cadarnhaol ar hawliau plant.

- Cyhoeddi cynllun ar gyfer gweithredu argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwasanaeth Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol.

- Monitro effaith Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 ar gydnabod ac amddiffyn plant sy'n ddioddefwyr caethwasiaeth fodern ac ymrwymo i gymryd camau lliniaru i amddiffyn plant lle nodir unrhyw ganlyniadau niweidiol.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael o'n gwefan.

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad hwn at:
correspondence@equalityhumanrights.com
Rydym yn croesawu eich adborth.

I gael gwybodaeth am fynediad at un o'n cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â:
correspondence@equalityhumanrights.com

Cewch yr wybodaeth ddiweddaraf am ein newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy gofrestru ar gyfer ein e-gylchlythyr.

EASS

I gael cyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth annibynnol rhad ac am ddim.

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 i 19:00 (D. Llun i Dd. Gwener)

10:00 i 14:00 (D. Sadwrn)

Post LLINELL GYMORTH RHADBOST FPN6521

© 2023 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddwyd Ionawr 2023 – ISBN: 978-1-84206-870-0

Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

equalityhumanrights.com

ISBN 978-1-84206-870-0